**Cofnodion Cyfarfod 12/9/2022**

**Presennol:** Geraint Roberts (Cadeirydd), Clwyd Davies, Eleri Jones, Emyr Jones, Gwyn Roberts, Tyly Roberts, W D Williams

Lis Puw, Clerc

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Nid oedd ymddiheuriadau.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion 20/6/2022.
5. Materion y Clerc:
   i. Cynrychiolaeth ar Gyngor Gwynedd: eglurodd y Clerc pam nad oedd gan ward Y Glyn Gynghorydd Gwynedd ar hyn o bryd. Dywedodd ei bod wedi anfon yr Agenda at Gynghorydd Gwynedd dros ward Gwalia, Elwyn Edwards.
   ii. Cofrestrfa'r Tir: nid yw'r broses gofrestru wedi ei gwblhau eto, ond dywed y cyfreithwyr ei bod yn broses hir.
   iii. Adroddwyd fod Parc Cenedlaethol Eryri wedi gwrthod cais cynllunio tir wrth Ffynnon Gywer.
   iv. Rhoddodd Clwyd Davies a'r Clerc adroddiad o gyfarfod a gohebiaeth am barcio yn Llangywer. Roedd y Cynghorwyr yn unfrydol yn cytuno y dylid cael llinellau dwbl melyn ar hyd y ffordd o'r orsaf wrth bont Mwnwgl y Llyn hyd at y groesffordd yn Llanuwchllyn. Cytunwyd i ofyn i Barc Cenedlaethol Eryri a ellid rhoi ardoll o 10% ar y ffi parcio yn Llangywer i'w drosglwyddo i Gyngor Cymuned Llangywer er budd y bobl leol. Gofynnir i Gynghorydd Gwynedd gysylltu parthed darn o dir ar gyfer maes chwarae. Bydd y Clerc yn holi am offer chwarae Byd Mary Jones.
   v. Dywedodd y Clerc ei bod wedi archifo 10 mlynedd o Gofnodion Cyngor Cymuned Llangywer yn yr Archifdy yn Nolgellau. Mae copïau electronig i'w gweld ar y wefan.
   vi. Cytunodd y Clerc i gynrychioli'r Cyngor mewn gweithdy "Ardal Ni".
6. Nid oedd ceisiadau cynllunio.
7. Ariannol: Derbyniwyd adroddiad llawn. Daeth yr ail hanner o'r praesept i law ar 31/8/22, £2125.00 . Cytunwyd i dalu £210 i Gyngor Gwynedd am archwilio'r cyfrifon. Cytunodd y Cyngor mai eu bwriad oedd talu 20% TWE i'r Clerc, a bod y Clerc yn talu hwn i HMRC ar ôl derbyn y cyflog blynyddol (£720 y flwyddyn); nid oedd yr aelodau wedi cofio cynnwys TWE wrth iddynt ystyried lefel cyflog y Clerc yn y gorffennol.
8. Y fynwent:
   i. Torri gwair: ni bu'n bosib eleni i gwblhau'r gwaith o dorri'r gwair. Cytunwyd fod angen helpu'r sawl sy'n arfer ei dorri trwy rhoi rhyddid iddo ddewis ei amser i wneud y toriadau (gan geisio gadael i'r clychau gog flodeuo ar ochr Bala o'r llwybr os yn bosib). Eto er mwyn fod o gymorth i'r torrwr gwair, gwirfoddololodd Cynghorwyr i daclo'r gwaith

yn fuan cyn y gaeaf hwn. Rhoddwyd hawl i hurio offer ar gyfer gwneud hyn. Bydd Clwyd Davies yn cydlynu'r gwaith.

ii. Giât: dywedodd Clwyd Davies y byddai'n holi gof arall am y gwaith.

9. Derbyniwyd Adroddiad Partneriaeth Penllyn gan y cynrychiolydd. Mae llawer o waith yn cael ei gynnal yng nghanolfannau Tegid ac Henblas ers apwyntio Trefnydd llawn amser. Mae'r Bwrdd Iechyd yn awyddus i gael Hwb Llesiant gyda Partneriaeth Penllyn yn ei reoli. Anogwyd pobl i lenwi holiadur am weithgareddau posib yn yr Henblas.

10. Gohebiaeth:

i. Un Llais Cymru – nodwyd derbyn rhaglen hyfforddiant Medi. Cytunwyd i ymuno gyda Cyngor Cymuned Llanuwchllyn os byddant yn trefnu cyfarfod hyfforddiant am Gynllunio.
ii. Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd cyfarchion oddi wrth Steffan Prys Roberts, Swyddog Cefnogi Cymunedau.
iii. Cyngor Gwynedd: diolchwyd am raglen waith Medi yn sôn am osod cyfeirbyst ym Maes Meillion a Choed y Wenallt.
iv. Parc Cenedlaethol Eryri : rhannwyd gwybodaeth am Gyfarfod Blynyddol i Gynghorwyr Cymuned dros Zoom. Rhaid archebu lle ymlaen llaw.
v. Llywodraeth Cymru: nodwyd derbyn ymgynghoriad ar Dreth Cyngor Decach.
vi. Llywodraeth Cymru : nodwyd derbyn cynllun bioamrywiaeth a Rheoli Glaswelltir.
vii. Llywodraeth Cymru: nodwyd derbyn ymgynghoriad ar raddfeydd ffioedd.
viii. Trafodwyd cynllun Tilhill wrth Tŷ Tan y Graig a chyfarwyddwyd y Clerc i anfon gwrthwynebiad clir at y swyddfa.
ix. Cytunodd Clwyd Davies i gynrychioli'r Cyngor yng Ngwyl Cyhoeddi Eisteddfod Powys.
x. Derbyniwyd rhag-rybydd o gais cynllunio i waith ar argae Celyn.

11. Materion y Cynghorwyr: Mynegwyd pryder am bla o lygod mawr ym mhentref Llangywer a chytunodd y Clerc – gan nad oes Cynghorydd Gwynedd ar hyn o bryd - i gysylltu gyda'r Adran Amgylcheddol i fynegi'r pryder hwn.

12. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 7/11/22

*Amser gorffen: 9.50pm*